***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 9

# Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

## RHAN 4

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG UWCH (CYRSIAU CYMHWYSOL, PERSONAU CYMHWYSOL A DARPARIAETH ATODOL) (CYMRU) 2015

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015**

**13.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 4A (personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teulu)—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (2)(a)(ii) mewnosoder "a";

(c) ar ddiwedd is-baragraff (2)(b) yn lle "; ac" rhodder atalnod llawn;

(d) hepgorer is-baragraff (2)(c);

(e) ar ddiwedd is-baragraff (3)(b) mewnosoder "ac";

(f) ar ddiwedd is-baragraff (3)(c) yn lle "; a" rhodder atalnod llawn;

(g) hepgorer is-baragraff (3)(d).